YSGOL LLANFYLLIN

**Gorffennaf 19, 2024**

Annwyl Riant/Gofalwr

Wrth i ni gyrraedd diwedd blwyddyn brysur iawn yma yn yr ysgol hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich holl gefnogaeth barhaus. Unwaith eto mae wedi bod yn bleser mawr gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc Llanfyllin a'u teuluoedd.

Hoffwn hefyd ddiolch a thalu teyrnged i'r tîm o staff hynod ymroddedig a phroffesiynol sydd gennym yma yn Llanfyllin, mae eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb heb eu hail. Diolch o galon i bawb.

**Canlyniadau Arholiadau Haf 2024**

Mae ein myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 a 6ed dosbarth wedi cwblhau eu holl arholiadau allanol, felly llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt. Byddwn yma gyda nhw ym mis Awst pan fyddant yn derbyn eu canlyniadau. Dymunaf y gorau iddynt ac edrychaf ymlaen at ddathlu eu llwyddiannau gyda nhw fis nesaf.

**Canlyniadau Lefel AS ac A2**: Dydd Iau Awst y 15fed

**Canlyniadau TGAU**: Dydd Iau Awst yr 22ain

Yn anffodus, byddwn yn ffarwelio ag aelodau o staff sydd wedi bod gyda ni ers blynyddoedd lawer ar ddiwedd y tymor hwn, ac rydym yn dymuno pob lwc iddyn nhw:

- **Mrs Brenda Morris, Prif Gogyddes** – sy'n ymddeol ar ôl 34 mlynedd o wasanaeth anhygoel i gymuned Ysgol Llanfyllin.
- **Mrs Rosie Yapp, Prif Gogyddes Gynorthwyol** – bydd hi hefyd yn ymddeol ar ôl gweithio ochr yn ochr â Brenda drwy gydol ei gyrfa hir.
- **Mrs Carys Jones, Athrawes Ffrangeg** – sy'n ymddeol ar ôl 32 mlynedd o wasanaeth rhagorol i'r ysgol
- **Mrs Vic Owen, Athrawes Tecstilau** – sy'n dechrau ar ei swydd fel athrawes Tecstilau Ôl-16 yn ysgol Moreton Hall
- **Mrs Ceri Ainsley, Athrawes Addysg Gorfforol –** sy'n dechrau ar ei swydd fel athrawes Addysg Gorfforol yn Ysgol Uwchradd Castell Alun

Bydd colled fawr ar ôl pob un o'r staff yma yn Ysgol Llanfyllin, a hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniadau rhagorol i fywyd yr ysgol.

Ym mis Medi byddwn yn croesawu aelodau newydd o staff addysgu i'r ysgol:

- **Miss Catrin Jones –** sy'n ymuno â ni i ddysgu Cerddoriaeth. Mae Cas yn gyn-ddisgybl i ni ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu yn ôl i Lanfyllin.
- **Miss Albane Montgomery** – sy'n ymuno â ni i ddysgu Gwyddoniaeth.
- **Miss Ceri Dolben Evans** – sy'n ymuno â ni i ddysgu dosbarth blwyddyn 3 a 4.
- **Miss Mary Bailey** – sy'n ymuno â ni i ddysgu Addysg Gorfforol
- **Mrs Laura Wilde –** sy'n ymuno â ni i ddysgu Tecstiliau

YSGOL LLANFYLLIN

**Gwisg Ysgol o fis Medi** - Disgwylir i bob disgybl wisgo gwisg ysgol lawn Ysgol Llanfyllin ar ôl dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Mae manylion ein disgwyliadau i'w gweld yn ein polisi gwisg ysgol sydd wedi'i ddiweddaru a'i rannu drwy Class Charts ac ar ap yr ysgol.

**Amser gorffen newydd, cynharach ar gyfer disgyblion y cyfnod uwchradd** - bydd pob disgybl yn gorffen eu diwrnod am 3:10pm o'r 3ydd o Fedi yn hytrach nag am 3:25yp.

**Rheolau newydd ynglŷn â ffonau symudol** – Bydd disgwyl i bob disgybl gadw at y rheolau newydd ynglŷn â defnyddio ffonau symudol a dyfeisiau o fis Medi ymlaen:

- Ni chewch ddefnyddio'ch ffonau symudol yn yr ysgol; ni ddylent gael eu gweld na'u clywed yn ystod y dydd
- Dylai ffonau fod ar 'silent' a'u cadw mewn bag ysgol
- Ni fyddwch yn cael defnyddio eich ffôn yn ystod amser egwyl nac amser cinio
- Byddwch yn cael defnyddio eich ffôn ar y bws

Yn olaf, mae'r cydweithio cryf rhwng yr ysgol, ei myfyrwyr a'u teuluoedd yn allweddol i sicrhau bod pob myfyriwr yn cyrraedd ei lawn botensial. Mae'r tîm yn Llanfyllin yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda chi i helpu eich plant ffynnu yn ystod eu blynyddoedd gyda ni, ac i gyrraedd eu llawn botensial.

Gobeithiaf yn fawr y cewch chi haf ymlaciol a hapus. Edrychaf ymlaen at eich gweld ym mis Medi ac at gydweithio gyda chi er mwyn sicrhau bod yr ysgol yn lle hapus, ysbrydoledig a rhagorol i ddysgu ynddi.

Bydd yr ysgol yn ailagor Ddydd Mawrth y 3ydd o Fedi ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i gyd yn ôl bryd hynny.

Yr eiddoch yn gywir,

Dewi Owen

Pennaeth/Headteacher